# Diweddariad Llyfrgelloedd am Oes

Mai 2009

## A yw'ch llyfrgell yn cael ei hadnewyddu?

Bydd rhaglen i fuddsoddi £3 miliwn yn ystod 2009-10 yn gweld arian yn cael ei roi i'r 23 llyfrgell isod gael adnoddau newydd, yn ogystal â gwella mynediad a chael llefydd hyblyg deniadol er mwyn annog mwy o weithgareddau. Bydd rhai llyfrgelloedd cyhoeddus hefyd yn medru cynnig mynediad di-wifr i'r Rhyngrwyd am ddim i'r cyhoedd.

Abertawe – Brynhyfryd a Thregwyr
Blaenau Gwent – Abertyleri a Blaina
Bro Morgannwg – Y Rhws
Caerdydd – Cathays
Caerffili – Pengam
Casnewydd – Dyffryn
Castell Nedd Port Talbot – Cwmafan
Gwynedd – Dolgellau a Nefyn
Pen-y-bont ar Ogwr – Llyfrgell Pîl
Powys – Llanfair Caereinion
Rhondda Cynon Taf – Maerdy, Hirwaun, Beddau a Thyn y Nant
Sir Gâr – Porth Tywyn
Sir Fynwy – Trefynwy
Sir y Fflint – Cei Conna
Wrecsam – Wrecsam ac Owrtyn
Ynys Môn – Benllech ac Amlwch

## Datblygu Staff

Mae CyMAL yn darparu bwrsariaethau er mwyn i staff llyfrgelloedd ddilyn ystod o gymwysterau ar gyfer datblygu gweithlu'r llyfrgelloedd. Anfonir atgof o'r hyn sydd ar gael yn ystod yr wythnosau nesaf, neu cadwch lygad ar wefan CyMAL:

wales.gov.uk/cymal

Cyswllt: Denise Lavis 01970 610227
denise.lavis@wales.gsi.gov.uk

## Gwobr Farchnata Rhyngwladol

Trechodd Ymgyrch Dyddiau Da gystadleuaeth gref gan 17 o wledydd er mwyn cipio'r ail wobr yng Ngwobrau Marchnata 2009 y Ffederasiwn Rhyngwladol ar gyfer Cymdeithasau a Sefydliadau Llyfrgelloedd. Diolch yn fawr i bawb a gefnogodd yr ymgyrch hon ac a gyfrannodd ati. Mae'r cynllun marchnata ar gyfer eleni wedi cael ei gorffen nawr. Bydd yn canolbwyntio mwy ar ddatganiadau i'r wasg â themâu, megis dysgu, hanes teulu ac iechyd ac rydym yn edrych ymlaen at benodi llefarydd enwog a chynnal cystadleuaeth genedlaethol. Anfonir manylion llawn allan yn fuan. Cysylltwch â Jane neu Nicky ar 01978 297437 jane.purdie@wrexham.gov.uk nicola.williams@wrexham.gov.uk

## Popeth Ar-lein

Ydych chi wedi cymryd cip ar library.wales.org/cy/pecynoffermarchnatallyfrgelloeddcymru/ yn ddiweddar? Mae'n cael ei ddatblygu ymhellach ar hyn o bryd er mwyn cynnwys gwybodaeth TG a gwybodaeth am Gwe 2.0 yn ogystal â chyfleoedd hyfforddi a chyfleoedd datblygu gyrfa, gwybodaeth am ddatblygu darllenwyr ac adnoddau marchnata. Mae pecynnau offer rhanbarthol yn cael eu datblygu hefyd - ewch i gael golwg arnynt a gadewch i ni wybod eich barn. Anfonwch eich datganiadau i'r wasg a digwyddiadau'r llyfrgelloedd at librariesforlife@llgc.org.uk hefyd os gwelwch yn dda - mae'n bosibl y cânt eu defnyddio ar y dudalen flaen, a byddant yn cael eu cynnwys yn yr adran newyddion.

**Cyswllt - Cynghorydd Datblygu Llyfrgelloedd CyMAL/Rheolwr Prosiect Llyfrgelloedd am Oes Alyson Tyler 01970 610236 alyson.tyler@wales.gsi.gov.uk**

Ariennir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru
Funded by Welsh Assembly Government